



Maniffesto Rhieni Dros Addysg Gymraeg ar gyfer Etholiadau Senedd Cymru 2026

- ✓ Addysg Gymraeg heb rwystrau
- ✓ Gweithlu Addysg Gymraeg
- ✓ Buddsoddi mewn isadeiledd Ysgolion Cymraeg
- ✓ Hyrwyddo a Chodi Ymwybyddiaeth
- ✓ Dysgu er mwyn defnyddio
- ✓ Deddfwriaeth a Hawliau Clir

Cyfarwyddwr Cenedlaethol: Elin Maher
post@rhag.cymru



Mae etholiadau 2026 yn cynnig cyfle hanesyddol i ailgyfeirio addysg yng Nghymru tuag at genedl wirioneddol ddwyieithog. Mae RhAG yn barod i gydweithio â phob plaid wleidyddol i wireddu'r weledigaeth hon – un lle mae pob plentyn yn cael y cyfle i ddysgu, byw a ffynnu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Pwy a beth yw RHAG?

Gweithia RhAG mewn nifer o wahanol ffyrdd er mwyn gwella mynediad at addysg Gymraeg i bob plentyn yng Nghymru. Gweithiwn yn uniongyrchol gyda theuluoedd pan mae angen ein harbenigedd mewn prosesau gwneud ceisiadau i ysgolion a chludiant, a phan mae newid polisi yn effeithio ar allu plentyn i gael mynediad deg at addysg Gymraeg. Gweithiwn i gryfhau polisi lleol a chenedlaethol yn ogystal wrth gynrychioli rhieni ar fforymau addysg Gymraeg awdurdodau lleol.

Mae RhAG wedi bodoli ers dros 70 o flynyddoedd yn gweithio ar ran rhieni a gofalwyr i sicrhau addysg Gymraeg i blant Cymru. Gwnawn hyn drwy ymgychu i agor mwy o ysgolion Cymraeg ar hyd a lled Cymru, gan adnabod cyfleoedd i agor ysgolion newydd mewn ardaloedd newydd a chefnogi rhieni pan ddaw heriau i rwystro mynediad hawdd at addysg Gymraeg.

Ein gweledigaeth yw bod pob plentyn yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg er mwyn iddynt allu bod yn ddinesydd cyflawn yng Nghymru, gan gyfrannu at ein diwylliant Cymraeg ar y naill law a gallu defnyddio o leiaf ddwy iaith yn eu bywydau. Wrth fagu sgiliau yn y Gymraeg yn gynnar iawn yn eu gyrfa addysgol, mae plant yn cael y cyfle gorau i ddatbygu eu sgiliau dwyieithog ymhellach. Bydd hyn yn creu mwy o gartrefi Cymraeg, ac yn golygu eu bod yn gallu manteisio ar bob cyfle yn y naill iaith neu'r llall ac mewn ieithoedd eraill.

Rydym yn elusen genedlaethol a sefydlwyd gan rieni er mwyn cynorthwyo a chefnogi rhieni a gofalwyr i gael mynediad hawdd at addysg Gymraeg i'w plant ac i'w cefnogi ar hyd eu taith. Mae gan bob plentyn yng Nghymru'r hawl i ddysgu'r Gymraeg ac i gael dwy iaith o leiaf fel y gallant gael y cyfle gorau i fod yn rhan o economi ddwyieithog Cymru yn llawn fel oedolion.

Wrth i ni agosáu at etholiadau'r Senedd yn 2026, rhaid rhoi addysg cyfrwng Cymraeg yn ganolog i'r agenda genedlaethol. Mae Canlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion (Ionawr 2025) yn cyflwyno darlun cymysg: er bod arwyddion o gynnydd, mae'r newid yn digwydd yn llawer rhy araf i wireddu uchelgais Cymraeg 2050.

Addysg Gymraeg heb rwystrau

Mae'r Cyfrifiad Ysgolion diweddaraf (Ionawr 2025) yn dangos **mai dim ond 26% o ddisgyblion Cymru sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg** neu ddwyieithog. Mae'r ffigur hwn yn pwysleisio'r angen am newid systemig i sicrhau mynediad cyfartal i addysg Gymraeg i bob plentyn, waeth beth fo'u cefndir neu eu cod post. Rhaid dileu'r rhwystrau daearyddol, cymdeithasol a pholisi sy'n cyfyngu ar y dewis i rieni ac yn atal plant rhag cael y cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

Mae angen **gwella strwythur addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) trwy gyfrwng y Gymraeg** er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal at ddarpariaeth o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol parhaus i athrawon a chynorthwyr, gan eu grymuso i gefnogi dysgwyr ADY yn effeithiol yn y Gymraeg. Yn ogystal, rhaid sicrhau bod darpariaeth ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gyfartal â'r hyn a geir mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, gan osod cydraddoldeb ieithyddol a chynhwysiant wrth wraidd y system addysg.

Mae angen **sicrhau cysondeb a strwythur clir yn y ddarpariaeth addysg drochi ganol a hwyr** ledled Cymru. Dylid adolygu Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu dysgwyr wrth gael mynediad at addysg Gymraeg. Rhaid i'r llwybr o ofal plant cynnar arwain yn llyfn ac yn lleol at

ddarpariaeth Gymraeg barhaus – o'r cylch meithrin i'r ysgol gynradd ac ymlaen i'r ysgol uwchradd – heb rwystrau na chyfaddawd ieithyddol.

Galwn ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i sicrhau bod ysgol gynradd Gymraeg o fewn pellter cyrraedd hwylus i bob cymuned yng Nghymru.

Gweithlu Addysg Gymraeg – i bob rhan o'r llwybr addysg

Mae ehangu addysg Gymraeg yn dibynnu ar weithlu hyderus, cymwys a digonol. Rhaid buddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddiant cychwynnol athrawon cyfrwng Cymraeg, datblygiad proffesiynol parhaus, a chynlluniau recriwtio a chadw staff. Dylai hyn gynnwys pob cam o'r llwybr addysg – o'r blynyddoedd cynnar i addysg bellach ac uwch – gan sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi gan weithlu sy'n galluogi dysgu trwy'r Gymraeg ar bob lefel.

Buddsoddi mewn isadeiledd Ysgolion cyfrwng Cymraeg

Tra bod y system gategoreiddio newydd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cynnig fframwaith cliriach ar gyfer cynllunio, ni ddylai'r system hon arafu'r broses o sefydlu ysgolion Cymraeg newydd.

Yn wir, dylai pob ysgol newydd a agorir o hyn ymlaen fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae angen buddsoddiad strategol mewn adeiladau, cyfleusterau a chynllunio lleol i sicrhau bod ysgolion Cymraeg yn hygyrch ac yn addas ar gyfer twf cymunedol i'r dyfodol. Dylid sefydlu canolfannau trochi i'r teulu yn rhan o'r cynllunio addysg ar draws Cymru.

Hyrwyddo a Chodi Ymwybyddiaeth


Mae dealltwriaeth gyhoeddus o fanteision a mecanwaith addysg Gymraeg yn allweddol i welededd addysg Gymraeg. Rhaid i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol fuddsoddi'n sylweddol i wneud hyn gan weithio gyda RhAG a phartneriaid cymunedol i hyrwyddo addysg Gymraeg yn weithredol, gan gynnwys ymgyrchoedd gwybodaeth, digwyddiadau cymunedol, a chymorth i rieni sy'n ystyried y llwybr Cymraeg am y tro cyntaf.

Dysgu er mwyn defnyddio

Nid yw addysg Gymraeg yn nod ynnddi'i hun – mae'n gyfrwng i greu siaradwyr Cymraeg gweithredol - y defnyddwyr. Rhaid i'r system addysg sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd cyson i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth: mewn chwaraeon, celfyddydau, technoleg, a bywyd cymunedol. Mae angen buddsoddi mewn polisïau sy'n cysylltu'r dysgu â'r defnydd, gan feithrin hyder a pherchnogaeth ieithyddol.

Deddfwriaeth a Hawliau Clir

Mae RhAG yn galw am adeiladu ar Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan sicrhau hawl pob plentyn i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol. Dylai'r hawl hon fod yn glir, yn weithredol ac yn amddiffynnol. Rhaid i'r system gategoreiddio, y broses gynllunio ysgolion, a phenderfyniadau cyllido gydymffurfio â'r egwyddor hon. Mae angen i'r Ddeddf newydd, drwy'r rheoliadau, osod targedau uchelgeisiol ar gyfer ehangu'r sector, ac sy'n sicrhau atebolrwydd ar bob lefel.



<https://www.llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-ionawr-2025.html>